Cronfa Bensiwn
GWYNEDD
Pension Fund

Ffurflen Gofnodi Adborth o Gynadleddau CPLlL /
LGPS Conference Feedback Recording Form

1. Manylion y Cynghorydd / Councillor Details	
Enw / Name:	Elin Hywel
Teitl y Gynhadledd / Conference Title:	Cynhadledd Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC
Dyddiad y Gynhadledd / Date of Conference:	13/10/2026 – 14/10/2026
Lleoliad neu Ddarparwr / Location or Provider:	WPP IM Co, Parkgate Hotel, Caerdydd

2. **Prif Sesiynau a Fynychwyd / Key Sessions Attended**

Rhowch fanylion y prif sesiynau, gweithdai neu gyflwyniadau a fynychwyd / Please list the main sessions, workshops or presentations you attended:

- Sesiwn gan Brif Weithredwr Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Cyd-destun y Farchnad a'r Economi
- Buddsoddi Cyfrifol, Stiwardiaeth ac Ymgysylltu – A yw'n addas ar gyfer y dyfodol?
- Deallusrwydd Artiffisial mewn Portffolios Buddsoddi
- Sesiwn ynghylch Buddsoddi Lleol gan Gwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Themâu Ecwiti
- Themâu Incwm Sefydlog

3. Prif Bwyntiau a Ddysgwyd / Materion a Amlygwyd / Key Points Learned / Issues Highlighted

Crynhowch y pwyntiau pwysicaf, y mewnwelediadau neu'r diweddariadau polisi a gyflwynwyd yn ystod y gynhadledd / Summarise the most important points, insights or policy updates shared during the conference:

- Roedd pwysigrwydd a gwerth cyfleon wyneb yn wyneb i cyn-nifer a phosib o'r Pwyllgor gael mynychu yn amlwg o'r gynhadledd hon, gyda nifer o aelodau yn cael y cyfle i glywed y wybodaeth law cyntaf a thrafod gyda eraill i ddatblygu eu dysgu a'u dealltwriaeth o'r pynciau sydd yn eu diddori.
- Roedd cymysg dda o bynciau i'w trafod dros y deuddydd ac roedd cyfleon da i gyfrannu o'r llawr, ac roeddwn yn falch iawn o weld ein aelodau yn gwneud hynny.
- Braf oedd derbyn diweddariad gan WPP IMCo ar ddechrau'r diwrnod cyntaf a oedd yn rhoi cyfle i bawb yn yr ystafell fod ar yr un dudalen. Roedd yn gosod ffrâm ddefnyddiol i ni o dargedu ansawdd uchel i'w gweithgaredd, golwg byd eang a lleol - a lle fo'r balans.

- Mae'r drafodaeth ar fuddsoddi cyfrifol bob tro yn ddefnyddiol ac roedd cyfleon da ac agored yma am gwestiynau o'r llawr. Roedd yn dangos hyder agored gan y trefnwyr i alluogi sgwrs fel yma ac mae'n argoeli'n dda (gobeithio) i'r dyfodol.
- Roedd y drafodaeth a chyflwyniad ar wybodaeth artiffisial yn ddiddorol iawn ar y diwrnod cyntaf ac yn rhoi cyfle da i ni drafod – nid yn unig ei buddsoddiadau mewn GA ond datblygu dealltwriaeth well o sut fo GA yn cael ei ddefnyddio gan ein rheolwyr buddsoddiadau, i ddeall y risgiau ar gwerth o gydweithio gyd GA yn y modd yma.
- Ar ddechrau'r ail ddiwrnod fe gafwyd sesiwn gaeëdig ar fuddsoddi yn lleol. Roedd sawl budd i sesiwn gaeedig yn fy marn i. I ddechrau roedd yn rhoi cyfle i ddod i adnabod pwy sydd yn uniongyrchol gysylltiedig gyda'r PPC. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i fynychwyr siarad yn fwy agored ac derbyn gwybodaeth lleol iawn i'w hardaloedd. Roedd yn ddatblygiad i'r sgwrs ar fuddsoddi yn lleol ac yn gyfle i amlygu eto rolau gwahanol y pwyllgorau fel perchnogion a chleientiaid pam yn dod i reoli'r buddsoddiadau fydd yn digwydd gan WPP IMCo.
- Roedd y ddau sesiwn olaf yn agoriad llygaid gyda cyfleon i adnabod sgil effaith digwyddiadau byd eang o safbwynt buddsoddi pur.

4. Perthnasedd i'r Gronfa CPLlL / Relevance to the LGPS Fund

Esboniwch sut mae'r wybodaeth yn berthnasol i lywodraethu'r gronfa, strategaeth fuddsoddi, gweinyddiaeth neu reoli risg / Explain how the information relates to the fund's governance, investment strategy, administration or risk management:

Roedd y wybodaeth a dderbyniwyd a'r rhwydweithio yn hanfodol i ddatblygiad y gronfa wrth i ni barhau i newid yn ôl gofynion 'Fit for the Future' a sefydliad WPP IMCo.

5. Camau Gweithredu neu Gamau Dilynol a Argymhellir / Recommended Actions or Follow-Up

Rhestrwch unrhyw gamau gweithredu, newidiadau neu drafodaethau pellach y dylai'r pwyllgor/bwrdd eu hystyried / List any suggested actions, changes, or further discussions needed by the committee/board:

Mae angen parhau i ddatblygu sgwrs ddeallus a chadarnhaol ar fuddsoddi yn lleol ac buddsoddiad cyfrifol drwy sgyrsiau sydd yn rhoi cyfleon i'r aelodau gyfrannu yn ystyrlon i'r broses.

6. Deunyddiau neu Adnoddau a Gasglwyd / Materials or Resources Obtained

Cofnodwch unrhyw ddogfennau, dolenni, cyflwyniadau neu nodiadau a all fod o gymorth i'r pwyllgor / Include links, documents, slide decks, or notes that may assist the committee:

Rhai sleidiau wedi eu rhannu yn uniongyrchol dros e-bost.

7. Asesiad Cyffredinol / Overall Assessment

Rhowch eich adborth cyffredinol ar werth ac effeithiolrwydd y gynhadledd / Provide your general feedback on the value and usefulness of the conference:
Cynhadledd fyrlymus yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol tra yn cynnig cyfleon pwysig i ddatblygu dealltwriaeth, rhwydweithio ac datblygu perthnasau rhwng aelodau'r Pwyllgor a WPP IMCo

8. Sylwadau Ychwanegol / Additional Comments Defnyddiwch y rhan hon ar gyfer unrhyw sylwadau neu bryderon ychwanegol / Use this space for any extra observations or concerns not covered above:

